

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**01/10/2008**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cynnwys**  
**Contents**

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol  
Questions to the Minister for Social Justice and Local Government
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth  
Questions to the Minister for Heritage

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**  
**Questions to the Minister for Social Justice and Local Government**

**Post Offices**

**Q9 Mark Isherwood:** Will the Minister make a statement on how the Welsh Assembly Government is supporting post offices in Wales? OAQ(3)0474(SJL)

**The Deputy Minister for Regeneration (Leighton Andrews):** Post office policy is non-devolved. Around 950 post offices in Wales have benefited from the small business rate relief scheme, worth up to £4,000 a year to individuals and totalling around £1.25 million last year. A consultation on the new refocused post office development fund is currently taking place.

**Household Debt**

**Q11 Irene James:** Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to tackle the problem of household debt? OAQ(3)0446(SJL)

**The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons):** Working with the UK Government, our financial inclusion strategy will propose a range of actions to tackle unmanageable debt, including increasing financial awareness and

**Swyddfeydd Post**

**C9 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi swyddfeydd post yng Nghymru? OAQ(3)0474(SJL)

**Y Dirprwy Weinidog dros Dreftadaeth (Leighton Andrews):** Nid yw polisi swyddfeydd post wedi'i ddatganoli. Mae tua 950 o swyddfeydd post Cymru wedi manteisio ar gynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach, sy'n werth hyd at £4,000 y flwyddyn i unigolion ac a ddaeth i gyfanswm o £1.25 miliwn y llynedd. Cynhelir ymgynghoriad ar gronfa ddatblygu ddiwygiedig ar gyfer swyddfeydd post ar hyn o bryd.

**Dyledion Aelwydydd**

**C11 Irene James:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â phroblem dyledion aelwydydd? OAQ(3)0446(SJL)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Gan weithio gyda Llywodraeth y DU, bydd ein strategaeth cynhwysiant ariannol yn cynnig ystod o gamau i fynd i'r afael â dyledion na ellir eu rheoli, gan

education, improving access to advice services and affordable credit, and increasing benefit take-up rates.

### **Communities First**

**Q12 William Graham:** Will the Minister outline Communities First projects in South Wales East that have, or may soon, become self-sustaining? OAQ(3)0462(SJL)

**Leighton Andrews:** In our consultation document on Communities First we said that, it was very unlikely that partnerships would become entirely self-sustaining. However, we encourage them to look at ways to make their activities more sustainable, including by developing social enterprises.

### **Communities Next Consultation**

**Q13 Sandy Mewies:** Will the Minister provide an update on the Communities Next consultation? OAQ(3)0455(SJL)

**Leighton Andrews:** I made a comprehensive oral statement on the outcome of the Communities First consultation in Plenary on 17 June 2008, summarising the responses and outlining our proposals for the way ahead. The consultation responses and interim analysis are on the Welsh Assembly Government's website.

### **Local Government Partnership Council**

**Q14 Huw Lewis:** Will the Minister outline current priorities for the Local Government Partnership Council? OAQ(3)0484(SJL)

**Brian Gibbons:** Following the local elections in May, the first meeting of the reconstituted Local Government Partnership Council will take place on 27 November. Key agenda items to be discussed at the meeting will include the local government finance settlement, public service improvement issues, and a review of the waste strategy.

gynnwys gwella ymwybyddiaeth ac addysg ariannol, ei gwneud hi'n haws i fwy o bobl fanteisio ar wasanaethau cynghori ac ar gredyd fforddiadwy, a chynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar fudd-daliadau.

### **Cymunedau yn Gyntaf**

**C12 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu prosiectau Cymunedau yn Gyntaf yn Nwyrain De Cymru sydd yn cynnal eu hunain neu a allai gynnal eu hunain cyn bo hir? OAQ(3)0462(SJL)

**Leighton Andrews:** Yn ein dogfen ymgynghori ar Gymunedau yn Gyntaf, dywedwyd ei bod yn annhebygol iawn y bydd partneriaethau'n dod yn hollol hunangynhaliol. Fodd bynnag, yr ydym yn eu hannog i ystyried ffyrdd o wneud eu gweithgareddau yn fwy cynaliadwy, gan gynnwys datblygu mentrau cymdeithasol.

### **Ymgynghoriad Cymunedau Nesaf**

**C13 Sandy Mewies:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad Cymunedau Nesaf? OAQ(3)0455(SJL)

**Leighton Andrews:** Gwneuthum ddatganiad llafar cynhwysfawr ar ganlyniadau ymgynghoriad Cymunedau yn Gyntaf yng Nghyfarfod Llawn 17 Mehefin 2008, gan grynhoi'r atebion ac amlinellu ein cynigion o ran y ffordd ymlaen. Cyhoeddwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dadansoddiad interim ar wefan y Llywodraeth.

### **Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol**

**C14 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau presennol ar gyfer Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol? OAQ(3)0484(SJL)

**Brian Gibbons:** Yn dilyn etholiadau lleol mis Mai, caiff cyfarfod cyntaf Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol ar ei newydd wedd ei gynnal ar 27 Tachwedd. Ymhlith yr eitemau allweddol ar yr agenda i'w trafod yn y cyfarfod fydd setliad cyllid llywodraeth leol, materion sy'n gysylltiedig â gwella gwasanaethau cyhoeddus, ac adolygiad o'r strategaeth wastraff.

## Anti-Social Behaviour

**Q15 Mohammad Asghar:** Will the Minister make a statement on anti-social behaviour levels in Newport? OAQ(3)0453(SJL)

**Brian Gibbons:** The Welsh Assembly Government is supporting community safety partnerships to ensure a joined up, multi-agency approach to combating anti-social behaviour in Newport and throughout Wales.

## Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**C15 Mohammad Asghar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghasnewydd? OAQ(3)0453(SJL)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi partneriaethau diogelwch cymunedol i sicrhau ein bod yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghasnewydd a thrwy Gymru gyfan mewn modd cydgysylltiedig ac aml-asiantaeth.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth Questions for the Minister for Heritage

### Cultural and Heritage Attractions

**Q9 William Graham:** Will the Minister outline Welsh Assembly Government support for cultural and heritage attractions outside National Museum Wales and the Cadw network? OAQ(3)0460(HER)

**The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones):** As outlined in 'One Wales', our aim is to offer high-quality cultural experiences to all the people of Wales, irrespective of where they live or their background. The Welsh Assembly Government, through sponsorship, supports and develops cultural and heritage attractions and events throughout Wales.

### Atyniadau Diwylliannol a Threftadaeth

**C9 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer atyniadau diwylliannol a threftadaeth y tu allan i rwydwaith Amgueddfa Cymru a Cadw? OAQ(3)0460(HER)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Fel yr amlinellir yn 'Cymru'n Un', ein nod yw cynnig profiadau diwylliannol o ansawdd uchel i holl bobl Cymru, waeth lle y maent yn byw neu o ba gefndir y deuant. Drwy roi nawdd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi ac yn datblygu atyniadau a digwyddiadau diwylliannol a threftadaeth ym mhob cwr o Gymru.

### Arts Centre (Merthyr Tydfil)

**Q10 Huw Lewis:** Will the Minister make a statement on the promised arts centre for Merthyr Tydfil? OAQ(3)0468(HER)

**Alun Ffred Jones:** The feasibility study into the proposed cultural enterprise centre in Merthyr Tydfil is set to report shortly. Full consideration of the proposed development will be undertaken once the outcome of that feasibility study is known.

### Canolfan Gelfyddydau (Merthyr Tudful)

**C10 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ganolfan gelfyddydau sydd wedi cael ei haddo ar gyfer Merthyr Tudful? OAQ(3)0468(HER)

**Alun Ffred Jones:** Bydd adroddiad astudiaeth ddichonoldeb canolfan mentrau diwylliannol ym Merthyr Tudful ar gael cyn hir. Eir ati i roi ystyriaeth lawn i'r datblygiad arfaethedig unwaith y bydd canlyniadau'r astudiaeth ddichonoldeb ar gael.

## Impact of the London Olympics

**Q11 Chris Franks:** What assessment has the Minister made of the impact that the London Olympics will have on Welsh arts, culture and sport? OAQ(3)0450(HER)

**Alun Ffred Jones:** Huge excitement has been generated by the performances of Welsh athletes in Beijing and by China's stunning achievement in staging the Games. Wales and the rest of the UK will be inspired to demonstrate our own artistic, cultural and sporting heritage and flair to the world in 2012.

## Digital Switchover

**Q12 Eleanor Burnham:** What discussions has the Minister had regarding preparations for the digital switchover? OAQ(3)0475(HER)

**Alun Ffred Jones:** We are in regular discussions with Digital UK, the UK Government, and Ofcom about digital switchover. The Welsh Assembly Government is also represented on the UK Government's digital switchover group.

## Graded Buildings

**Q13 David Melding:** How many graded buildings in Wales are currently considered to be at risk? OAQ(3)0451(HER)

**Alun Ffred Jones:** Of the approximately 30,000 listed buildings in Wales, it has been estimated that some 10 per cent are 'at risk'.

## Protecting Welsh Heritage

**Q14 Lesley Griffiths:** What steps is the Welsh Assembly Government taking to protect Welsh heritage? OAQ(3)0469(HER)

**Alun Ffred Jones:** The Assembly Government protects Wales's distinctive heritage through grant schemes, programmes of recording, community engagement, as well as the use of statutory powers and support for cultural activities. It specifically cares for 127

## Effaith Gemau Olympaidd Llundain

**C11 Chris Franks:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith a gaiff Gemau Olympaidd Llundain ar y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon yng Nghymru? OAQ(3)0450(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae perfformiad athletwyr o Gymru yn Beijing a champ aruthrol Tsieina wrth gynnal y Gemau wedi creu cryn gyffro. Bydd Cymru a gweddill y DU yn cael ein hysbrydoli i ddangos ein treftadaeth a'n doniau artistig a diwylliannol ein hunain, a'n doniau ym maes chwaraeon, i'r byd yn 2012.

## Newid i Ddigidol

**C12 Eleanor Burnham:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y paratodau ar gyfer newid i ddigidol? OAQ(3)0475(HER)

**Alun Ffred Jones:** Yr ydym yn trafod yn rheolaidd â Digital UK, Llywodraeth y DU, ac Ofcom am y newid i ddigidol. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gynrychiolaeth ar grŵp Llywodraeth y DU ar y newid i ddigidol hefyd.

## Adeiladau wedi'u Graddio

**C13 David Melding:** Faint o adeiladau wedi'u graddio yng Nghymru a ystyrir sydd mewn risg? OAQ(3)0451(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae tua 30,000 o adeiladau rhestredig yng Nghymru, ac amcangyfrifir bod oddeutu 10 y cant ohonynt 'mewn perygl'.

## Amddiffyn Treftadaeth Cymru

**C14 Lesley Griffiths:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd i amddiffyn treftadaeth Cymru? OAQ(3)0469(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn diogelu treftadaeth unigryw Cymru drwy gyfrwng cynlluniau grant a rhaglenni cofnodi, drwy ennyn diddordeb y gymuned, a thrwy ddefnyddio pwerau statudol a rhoi cymorth ar gyfer

sites and is a partner to the proposed reforms in the draft Heritage Protection Bill.

gweithgareddau diwylliannol. Yn benodol, mae'n gofalu am 127 o safleoedd ac mae'n bartner i'r diwygiadau arfaethedig yn y Mesur Diogelu Treftadaeth drafft.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)0455(HER), yn ôl.  
Question 15, OAQ(3)0455(HER), withdrawn.*